

Cymraeg mewn
Ymarfer Proffesiynol 2
2025-26




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 15 : Rhagenwau

Allwedd:




Drilio




Ymarfer ar
lafar (yn
unigol)




Tasg
wrando




Gwaith
pâr



Grŵp o
dri



Gwaith
grŵp




Amser
canu



Gwaith ar
y byrddau
gwyn




Tasg
ysgrifennu



Tasg
ddarllen



Help llaw



Tystiolaeth
i'r
Portffolio

Beth ydy rhagenw?

Gair ydy rhagenw sy'n cael ei ddefnyddio yn lle enw.

e.e. Mae'r bachgen yn canu.

Mae e / ef yn canu.



Ble mae'r rhagenw?

Gwelais i'r ferch yn y dre ddoe.
Mae John a finnau'n ffrindiau mawr.
Arno fe mae'r bai.
Rydw i ar fy mhen fy hunan.
Dyna eu hysgol ar y teledu.
Mae'r pennaeth yn dod i'th swyddfa.
Ni sy'n siarad y prynhawn 'ma.
Aethon ni i'r dre ac aeth hithau i'r cyfarfod.

1. Gwelais **i'r** ferch yn y dre ddoe.
2. Mae John a **finnau'n** ffrindiau mawr.
3. Arno **fe** mae'r bai.
4. Rydw **i** ar **fy** mhen **fy hunan**.
5. Dyna **eu** hysgol ar y teledu.
6. Mae'r pennaeth yn dod **i'th** swyddfa.
7. **Ni** sy'n siarad y prynhawn 'ma.
8. Aethon **ni** i'r dre ac aeth **hithau** i'r cyfarfod.

Gwallau Cyffredin: Cywirwch y brawddegau canlynol.




1. Mae nhw'n codi'n gynnar.
2. Mae e'n braf iawn heddiw.
3. Ydy e'n naw o'r gloch?
4. Fi sy'n capten ar y tîm criced.
5. E yw'r gorau yn y dosbarth.

Ymarfer: Atebion



1. **Maen** nhw'n codi'n gynnar.
2. Mae **hi'n** braf iawn heddiw.
3. Ydy **hi'n** naw o'r gloch?
4. Fi **ydy / yw** capten ar y tîm criced eleni.
5. **Fe** yw'r gorau yn y dosbarth.

Beth allwch chi ddweud am...



ei (g)

eu

fy

ein

dy


eich

ei (b)



Treigladd Trwynol	
p	mh
t	nh
c	ngh
b	m
d	n
g	ng

Rheol 1:
Pa dreigladd sydd ar ôl....?



Mae **treigladd trwynol** ar ôl 'fy'
e.e.

fy **ngh**adair

Ymarfer

desg

gwaith

cadair

dosbarth

gwylliau

calendr

car

cyfrifiadur

bwrdd

dyddiadur

beiro

pensil

cytundeb

taflenni
gwaith



Treigladd Meddal	
p	b
t	d
c	g
b	f
d	dd
g	/
ll	l
m	f
rh	r

Rheol 2:
Pa dreigladd sydd ar ôl....?



dy

ei (g)

Mae **treigladd meddal** ar ôl 'dy' ac
'ei gwrywaidd'e.e.


dy **f**ag
ei **f**ag



Rheol 3: Pa dreigladd sydd ar ôl....?



Treigladd Trwynol	
p	ph
t	th
c	ch



Mae treigladd llawer ar ôl 'ei (b)' e.e.
ei **th**aflen waith

Rheol 4:
Pa dreigladd sydd ar ôl....?

ein

eu

eich



Does dim treigladd yn dilyn y rhagenwau hyn.

Ond....

Rydyn ni'n ychwanegu 'h' o flaen llafariad gydag **eu** ac **ein**

Unigol

fy

dy

ei (gwr.)

ei (ben.)

Treigladd

Trwynol

Meddal

Meddal

Llaes (**h** o flaen llafariad)

Lluosog

ein

eich

eu

Treigladd

h o flaen llafariad

h o flaen llafariad



e.e.

fy mhen

dy ben

ei ben

ei phen; ei hathro

ein hathro

eich athro

eu hathro




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

ei neu eu?



**Pryd ydyn ni'n defnyddio ei ac
eu?**

Mae **ei** yn sôn
am rywbeth sy'n
perthyn i **un**
person.

Mae **eu** yn sôn
am rywbeth sy'n
perthyn i **fwy**
nag un person.



ei waith e

Treigl
Meddal

ei gwaith
hi

Treigl
Llaes

eu gwaith
nhw

Dim Treigl
o flaen llafariaid

Ond:



ei gilydd

...sy'n gywir bob amser, hyd yn oed os ydyn ni'n siarad am fwy nag un person.

*e.e. Darllenodd y staff adroddiadau **ei** gilydd.*

*Edrychodd y cymeriadau ar **ei** gilydd yn syn.*

Mae'r rhagenw 'ei' yn unigol
ac yn cyfeirio at un person:

e.e. (

A hand holding a black marker is shown writing on a piece of lined paper. The hand is positioned below the text 'e.e. (' and is in the process of writing a closing parenthesis. The paper has horizontal blue lines and a vertical red margin line on the left.

Ymarfer: ei / eu / i / u

1. Mae'r llyfr wedi cael ____ ddarllen.
2. Cafodd y staff ____ canmol am ____ gwaith caled.
3. Roedd y rheolwr wrth ____ fodd gyda ____ swydd newydd.
4. Gwnaeth Sara a Sam deithio gyda ____ gilydd i'r cyfarfod.
5. Mae'r nwyddau newydd wedi ____ prynu ar y we.
6. Roedden nhw wedi cwrdd â ____ gilydd yn y gynhadledd.
7. Rydw i'n adnabod ____ brawd a ____ chwaer hi.
8. Roedd llawer o raglenni newydd wedi cael ____ cynhyrchu yn ystod y tymor.

Ymarfer: ei / eu / i / u - ATEBION



1. Mae'r llyfr wedi cael ei ddarllen.
2. Cafodd y staff eu canmol am eu gwaith caled.
3. Roedd y rheolwr wrth ei fodd gyda'i swydd newydd.
4. Gwnaeth Sara a Sam deithio gyda'i gilydd i'r cyfarfod.
5. Mae'r nwyddau newydd wedi eu prynu ar y we.
6. Roedden nhw wedi cwrdd â'i gilydd yn y gynhadledd.
7. Rydw i'n adnabod ei brawd a'i chwaer hi.
8. Roedd llawer o raglenni newydd wedi cael eu cynhyrchu yn ystod y tymor.

Ymarfer: Gywiro Gwallau

Beth sydd o'i le fan hyn?

1. Roedd e'n hoffi ei gwaith.
2. Roedd hi'n hoff iawn o'i cwrs.
3. Maen nhw'n dueddol o anghofio am ei gwaith cwrs a'i gwaith cartref!
4. Maen nhw'n talu'n ddrud am eu thŷ.
5. Gadawon nhw o'u wirfodd.



Roedd e'n hoffi ei waith.

Roedd hi'n hoff iawn o'i chwrs.

Maen nhw'n dueddol o anghofio am eu gwaith cwrs a'u gwaith cartref!

Maen nhw'n talu'n ddrud am eu tŷ.

Gadawon nhw o'u gwirfodd.

Dyma enghreifftiau wrth ddefnyddio collnod: (Gwylwch y treigladau)



i + ei	=	i'w	Aeth hi i'w thŷ. Aeth e i'w dŷ.
i + eu	=	i'w	Aeth y staff i'w swyddfeydd.
a + ei	=	a'i	Y bachgen a'i degan. Y ferch a'i thegan.
a + eu	=	a'u	Y gweithwyr a'u ceir.
o + ei	=	o'i	Mae e'n gweithio o'i gartref. Mae hi'n gweithio o'i chartref.
o + eu	=	o'u	Mae'r staff yn gweithio o'u cartrefi.
i + ein	=	i'n	Dere i'n gweld ni
i + eich	=	i'ch	Ydych chi'n barod i'ch cyfweiliad?
i + fy	=	i'm (*dim treigladau)	Dewch <u>i'm</u> gweld.




- Roedd Elen ac Eleri yn anhapus gyda'i marciau yn y prawf.
- Penderfynodd Helen brynu anrheg Nadolig i'w gefnder.
- Penderfynodd yr athrawon beidio â gosod gwaith cartref i'w ddosbarth.
- Roedd yr adroddiad yn gynhwysfawr yn ei chyfanrwydd.
- Anghofiodd y merched ei cit pêl-droed.
- Mae'r ffeil yn gyflawn a'i drefn yn glir.
- Roedd y gwasanaeth yn wych a'i chynnwys yn berthnasol.



- ✓ Rhedodd Siân yn gyflym rhag iddi golli ei thrên i Gaerdydd.
- ✓ Roedd Elen ac Eleri yn anhapus gyda'u marciau yn y prawf.
- ✓ Gweithiodd Aled yn arbennig wrth baratoi ei gyflwyniad.
- ✓ Roedd y wers yn rhy arwynebol a'i chynnwys yn rhy syml.
- ✓ Mae'r Llywodraeth yn amrywio ei pholisïau.
- ✓ Mae'r dasg yn hollbwysig a'i phwrrpas yn glir.
- ✓ Mae'r gliniaduron yn y cwpwrdd a'u ceblau yn y bocs.

Ymarfer:




1. Rhoddodd y ferch ei gas pensiliau yn ei fag.
2. Roedd y plant wrth ei bodd gyda rhaglen Cyw.
3. Gweithiodd Dafydd yn galed ar eu gwaith cynllunio.
4. Roedd llyfrau'r disgyblion yn ei bagiau.
5. Torrodd y bachgen ei choes wrth ddisgyn oddi ar ei beic.
6. Edrychodd y ddau fachgen yn gas ar eu gilydd.
7. Bydd pawb yn cael ei gwobrau cyn diwedd yr wythnos.
8. Mae'r cyflwynwyr wrth ei fodd gyda'r stiwdio newydd.



1. Rhoddodd y ferch ei chas pensiliau yn ei bag.
2. Roedd y plant wrth eu bodd gyda rhaglen Cyw.
3. Gweithiodd Dafydd yn galed ar ei waith cynllunio.
4. Roedd llyfrau'r disgyblion yn eu bagiau.
5. Torrodd y bachgen ei goes wrth ddisgyn oddi ar ei faic.
6. Edrychodd y ddau fachgen yn gas ar ei gilydd.
7. Bydd bawb yn cael eu gwobrau cyn diwedd yr wythnos.
8. Mae'r cyflwynwyr wrth eu bodd gyda'r stiwdio newydd.

Munud i feddwl ...


Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?



Grŵp o
dri




Help llaw



Gwaith
pâr



Tasg
ysgrifennu



Drilio



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru